Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar
Nos Lun 23ain o Fawrth, 2026 am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn
Minutes of a Meeting of Trawsgoed Community Council held on Monday 23rd March, 2026
at 7.30 p.m. held at Llanfihangel-y-Creuddyn School.
Y Dyddiad wedi ail-drefnu o'r 2 Mawrth 2026 / Date re-arranged from 2nd March 2026

Presennol/Present: Cyng./Cllr. A. Richards, (Cadeirydd/Chair)
Cyng./Cllr. M. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. A. Evans, Cyng./Cllr. E. Lewis, Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan
Ymddiheuriadau / Apologies: Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies, Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies.

248.	**Materion Personol**	**Personal Matters**
249.	**Datgelu Buddiannau Personol** Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.	**Disclosure of Personal Interest** Members were reminded to declare an interest when discussing items.
250.	**Asesiad Risg ac Asedau** Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau.	**Risk and Asset Assessment** There were no matters arising regarding Assets.
251.	**Cofnodion Cyfarfod Diwethaf** 19eg Ionawr 2026 I'w cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.	**Minutes of the Last Meeting** 19th January 2026 To be confirmed at next meeting.
252.	**Materion yn Codi o'r Cofnodion**	**Maters Arising from the Minutes**
253.	Maes Chwarae Maes y Felin, Llanafan. Dim datblygiadau pellach o ran les Cae Chwarae Maes y Felin.	Maes y Felin Playing Field, Llanafan No further developments on the Maes y Felin Playing Field lease.
254.	Cais gan Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn a fyddai'r Cyngor Bro yn cytuno i'r caban pren ar safle Maes y Felin i'w hadleoli i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn er budd plant yr ysgol. Y Clerc i wneud ymholiadau o ran perchenogaeth y caban pren. Penderfynwyd cytuno i'r cais, gyda'r Clerc i gysylltu gyda'r cyn Bwyllgor Cymdeithas Maes-y-Felin er mwyn sicrhau perchenogaeth y caban. Y Clerc hefyd i hysbysu Cyngor Sir Ceredigion am y trefniant.	Request from Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn if the Community Council would agree for the log cabin on the Maes y Felin site be relocated to Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn for the benefit of the school's pupils. It was resolved to agree to the request pending approval of the previous Maes-y-Felin Association Committee of the ownership of the cabin. The Clerk also to inform Ceredigion County Council of the arrangement.
255	Nifer o faterion hanesyddol angen sylw, Cyngor Sir Ceredigion wedi cydnabod derbyn gwybodaeth am y materion, bydd angen aros i'r gwaith eu cwblhau gan dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion yn achlysurol os na byddant wedi gweithredu arnynt.	A number of historical issues needing attention, Ceredigion County Council has acknowledged the reporting of these matters, it will be necessary to wait for the work to be completed and occasionally bring the issues to the attention of the County Council if they have not been acted upon.

256.	Nifer o dyllau yn y ffordd rhwng Llanafan a Brynafan angen sylw.	A number of pot holes between Llanafan and Brynafan needing attention.
257.	Sefyllfa o ddŵr yn cronni rhwng Y Gors a Penffordd yn achosi problemau eto er i Gyngor Sir Ceredigion drefnu gwneud gwaith o roddi drain ddŵr newydd ar y safle rai misoedd yn ôl.	Rain water is causing flooding between New Cross and Penffordd despite Ceredigion County Council organising drainage work on the site several months ago.
258.	Dwr glaw yn llifo o'r caeau ac achosi dwr i gronni a'r ffordd i dorri heibio i Bryngibdda.	Rain water from the fields causing flooding and eroding of the road past Bryngibdda.
259.	Cyflwr y ffordd angen sylw o Lanafan, heibio Brynafan ac i lawr i gyfeiriad New Row.	Road condition requiring attention from Llanafan, via Brynafan and down towards New Row.
260. 261.	Mae arwydd Llanfihangel-y-Creuddyn ar gyffordd heibio Sarnau wedi diflannu ac atgoffir y Cyngor Sir fod arwydd Pentre Cnwch Coch parhau heb ail-osod.	The sign of Llanfihangel-y-Creuddyn on the junction of Sarnau hill has disappeared and the County Council is reminded that the Village Sign for Cnwch Coch has not been returned.
262.	Arwydd ffordd am Lanfihangel-y-Creuddyn angen ail-osod ar yr A4120	Direction sign for Llanfihangel-y-Creuddyn on the A4120 needs attention.
263.	Mae bin halen ar waelod rhiw i Lanfihangel-y-Creuddyn wedi cael difrod.	Salt bin at bottom of Sarnau Hill has obtained damage.
264.	Yr angen ail-leoli polyn cornel gardd Glanaber yng Nghnwch Coch yn dilyn gwaith diweddar ar ddraen dŵr.	A corner stone pole of garden of Glanaber in Cnwch Coch is in need of repositioning following recent work on a water drain.
265.	Tyllau yn y ffordd rhwng Glanyrafon a Cynon Villa, Llanfihangel-y-Creuddyn ac ar ben y rhiw rhwng Cnwch Coch a Llanfihangel-y-Creuddyn.	Potholes in the road between Glanyrafon and Cynon Villa, Llanfihangel-y-Creuddyn and at the top of the hill between Cnwch Coch and Llanfihangel-y-Creuddyn.
266.	Darn o'r ffordd A4340 yn rhoi rhwng Abermagwr a mynediad am Lanfihangel-y-Creuddyn.	Section of the A4340 roadside giving way between Abermagwr and the access for Llanfihangel-y-Creuddyn.
267.	Tyllau yn y Ffordd angen tynnu sylw'r Cyngor Sir: Ganol Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn gan gynnwys ar y ffordd heibio ochr yr Eglwys; Nifer o dyllau dwfn a mawr ar hyd y ffordd ar Rhiw Sarnau, Llanfihangel-y-Creuddyn;	Potholes to be brought to the attention of the County Council: Llanfihangel-y-Creuddyn Village including the road alongside of the Church; A number of deep and large potholes along Sarnau Hill.
268.	Arwydd 'ysgol' yn Llanfihangel-y-Creuddyn angen adnewyddu.	The 'school' sign in Llanfihangel-y-Creuddyn had faded.

269. Arwydd 20mya ger Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn wedi dechrau cwympo.

A 20mph sign near Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn is leaning to one side.

270. Tyllau dwfn ar Rhiw Sarnau, Llanfihangel-y-Creuddyn ac yng Nghanol y Pentref. Hefyd Penffordd, Y Gors, a'r ffordd rhwng Llanafan and Brynafan.

Deep holes on Rhiw Sarnau, Llanfihangel-y-Creuddyn and in the Village Square. Also at Penffordd, New Cross and between Llanafan and Brynafan.

Materion Cyllidol

271. Derbyniadau:
Llog Banc: £7.67 Rhagfyr 2025; £7.38 Mawrth 2026.

Finance

Receipts:
Bank Interest: £7.67 December 2025; £7.38 March 2026.

272. Cyflwynodd y Clerc fantolen ariannol yn nodi fod £2,114.65 ar gael yn y cyfrif cadw ar 28ain Chwefror, 2026 a £4,654.38 yn y cyfrif cyfredol cyn costau a benodwyd.

Yr uchod yn cynnwys costau banc o:
£5.40 Gorffennaf 2025; £0.40 Awst 2025; £1.20 Medi 2025; £0.40 Hydref 2025; £0.40 Tachwedd 2025; Nid oedd costau am Rhagfyr 2025 a Ionawr 2026.

The Clerk presented a financial balance sheet noting an available balance of £2,114.65 in the savings account as at 28th February 2026 and £4,654.38 in the current account prior to committed expenses.
The above includes bank costs of:
£5.40 July 2025; £0.40 August 2025; £1.20 September 2025; £0.40 October 2025; £0.40 November 2025; There were no charges for December 2025 and January 2026.

273. Cytunwyd i dalu Tuen Garden Maintenance cyfanswm o £640.00: (torri'r porfa a thorri gwrych).
Cynigiwyd y taliad gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.

It was agreed to pay Tuen Garden Maintenance a total of £640.00: (grass cutting and hedge cutting).
The payment was proposed by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. Sh. Edwards.

274. Rhoddion: Yn dilyn hysbysu'n y gymuned ac ar y we am geisiadau am nawdd ariannol o'r Cyngor Bro ac amodau Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137 trafodwyd a chytunwyd ar y cyfraniadau canlynol:

Donations: Following placing a notice in the community and on the website inviting applications for funding from the Community Council and conditions Section 137 (4) (a) of the Local Government Act 1972 Section 137 the following were discussed and agreed upon:

275. £100.00 Clwb Ffermwyr Ifanc Trisant;
Cynigiwyd gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.

276. £250.00 Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn tuag at brosiect gyda'r disgyblion. Cynigiwyd gan Cyng. M. Davies ac eiliwyd gan Cyng. A. Evans.

277. £250.00 Neuadd Lisburn, Llanafan.
Cynigiwyd gan Cyng. E. Lewis ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.

278. £150.00: Y Ddolen: Cynigiwyd y taliad gan Cyng. C. Lloyd Morgan ac eiliwyd gan Cyng. M. Davies

£100.00: Trisant YFC.
Proposed by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. Sh. Edwards.
£250.00 Llanfihangel-y-Creuddyn School towards a school project with the pupils.
Proposed by Cllr. M. Davies and seconded by Cllr. A. Evans
£250.00 Lisburne Hall, Llanafan.
Proposed by Cllr. E Lewis and seconded by Cllr. Sh. Edwards.
£150.00: Y Ddolen: Proposed by Cllr. C. Lloyd Morgan and seconded by Cllr. M. Davies.

279. £150.00: Ambiwlans Awyr Cymru Cynigiwyd gan Cyng. M. Davies ac eiliwyd gan Cyng. E. Lewis.

£150.00: Wales Air Ambulance: Proposed by Cllr. M. Davies and seconded by Cllr. E. Lewis

280. £150.00 Beiciau Gwaed Cymru, Ceredigion. Cynigiwyd gan Cyng. C. Lloyd Morgan ac eiliwyd gan Cyng. E. Lewis.

£150.00 Blood Bikes Wales, Ceredigion. Proposed by Cllr. C. Lloyd Morgan and seconded by Cllr. E. Lewis.

281. £50.00 HAHAV. Cynigiwyd gan Cyng. M. Davies ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd Morgan.

£50.00 HAHAV. Proposed by Cllr. M. Davies and seconded by Cllr. C. Lloyd Morgan.

282. £50.00 Cymdeithas Llanfihangel-y-Creuddyn tuag at gweithgareddau i'r Pentref. Cynigiwyd gan Cyng. C. Lloyd Morgan ac eiliwyd gan Cyng. M. Davies.

£50.00 Cymdeithas Llanfihangel-y-Creuddyn for activities within the Village. Proposed by Cllr. C. Lloyd Morgan and seconded by Cllr. M. Davies.

283. £50.00: Ysgol Feithrin Penllwyn. Cynigiwyd gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd Morgan.

£50.00 Penllwyn Nursery School. Proposed by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. C. Lloyd Morgan.

284. Talu Cyflog/ Costau'r Clerc; Cyflog Clerc: Penderfynwyd talu cyflog a chostau'r Clerc. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. E. Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. C. Lloyd Morgan. £740.00 (Hydref 2025 – Mawrth 2026), £185.00 i HMRC (PAYE) a £25.22 costau'r clerc.

Clerk's Salary: It was resolved to pay the Clerk's salary and costings. Proposed by Cllr. E. Lewis and seconded by Cllr. C. Lloyd Morgan. £740.00 from (October 2025 – March 2026) £185.00 to HMRC (PAYE) and £25.22 clerk's expenses.

285. Tendr

Cynigiwyd gan Cyng. M. Davies ac eiliwyd gan Cyng. A. Evans i gymeradwyo derbyn tendr gan P. Bonner am y Gwaith isod. £160 torri llwybrau Llwynprenteg, Pont Sigl, Ffordd Uchaf. £200 Torri porfa Tir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn.

Tendre

Resolved by Cllr. M. Davies and seconded by Cllr. A. Evans to approve arrangements for accepting the tendre for the following work. £160 Path clearance Llwynprenteg, Pont Sigl, Ffordd Uchaf. £200 Grass cutting Tir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn.

286. **Ceisiadau Cynlluio**

Planning Applications

287. **Gohebiaeth**

Correspondence

288. Ymgynghoriad gan Gyngor Sir Ceredigion am y bwriad i BT ddiddymu'r gwasanaeth ffôn mewn ciosg yn Llanafan oherwydd diffyg defnydd o'r gwasanaeth. Cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad gan y Cyngor Bro i waredu'r ffôn yn sgil y diffyg defnydd o'r Gwasanaeth. Cytunwyd hefyd yn unol â'r cais i ymateb yn nodi bod diddordeb gan y Cyngor Bro i archebu'r ciosg am £1.00. Y Clerc i ymateb yn nodi'r uchod i Gyngor Sir Ceredigion a BT.

Consultation by Ceredigion County Council of BT's intention to remove the telephone service at a kiosk in Llanafan due to lack of usage. It was agreed that there was no objection from the Community Council to the removal of the telephone due to the lack of usage. It was also agreed in accordance with the request stating that the Community Council was interested in purchasing the kiosk for £1.00. The Clerk to respond noting the above to Ceredigion County Council and BT.

289. **Rhannu Gwybodaeth**

290. Tyllau dwfn ar y ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn tuag at Trisant.

Sharing of Information

Deep potholes on the road from Llanfihangel-y-Creuddyn towards Trisant

291. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Lun 18fed Mai 2026 am 7.30y.h. yn Neuadd Lisburn, Llanafan.

DATE OF NEXT MEETING

Monday 18th May, 2026 at 7.30p.m. at Lisburn Hall, Llanafan.